------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Hydref 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cod Ymddygiad - Adolygiad: Ystyried ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r adroddiad, 'Creu'r Diwylliant Cywir'

(09.30-10.15)

SoC(5) -17-18 Papur 1 - Ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r adroddiad, 'Creu'r Diwylliant Cywir'.

## 3 Adroddiadau Blynyddol y Gwrpiau Trawsbleidiol 2017-18

(10.15-10.30)

SoC(5)-17-18 Papur 2 - Adroddiad Blynyddol y Grwpiau Trawsbleidiol 2017-18

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

# Eitem 2

Jayne Bryant AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO528/EJ/CS

27 Medi 2018

Annwyl Jayne,

**Creu'r Diwylliant Cywir**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Medi 2018 gyda chopi o dan embargo o'ch adroddiad, Creu'r Diwylliant Cywir. Ystyriodd Comisiwn y Cynulliad yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 24 Medi.

Mae'r Comisiwn yn nodi'r gwaith manwl a wnaed gan y Pwyllgor, ac mae'n diolch iddo am ei ddull o ddatblygu'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn ystod y misoedd diwethaf. Rydyn ninnau hefyd o'r farn y bydd yr adroddiad a'i argymhellion yn arwain at well diwylliant o urddas a pharch, ac y bydd yn helpu i greu ein gweledigaeth ar gyfer Cynulliad cynhwysol, nad yw'n cynnwys dim aflonyddu. Nododd y Comisiynwyr hefyd fod hwn yn faes gwaith pwysig a pharhaus, ac rydym am danlinellu ein hymrwymiad i weithio gyda'r Pwyllgor i sicrhau ein bod yn gwella hygyrchedd at amrywiaeth o brosesau cwyno, yn parhau i godi ymwybyddiaeth, yn rhoi cefnogaeth, yn monitro digwyddiadau, yn creu strwythurau cywir ac yn cefnogi newid diwylliannol. Cytunwn fod yr adroddiad yn nodi cyfeiriad clir i hwyluso'r gwelliannau sydd eu hangen.

Ym mhob achos ond un, mae Comisiwn y Cynulliad yn derbyn yr argymhellion sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau, ac mae ein gweithgor Urddas a Pharch wedi dechrau ar ei waith i gyflawni'r rhain erbyn yr amseroedd a nodir yn eich adroddiad.

Hoffem gael ychydig yn rhagor o amser i ystyried argymhelliad 14 a'i oblygiadau i'r Cynulliad cyn i ni ymateb yn ffurfiol. Er y gallwn weld y manteision posibl a amlinellir gan y Pwyllgor, hoffem gael amser i ystyried ymhellach a ellir gwireddu'r manteision hynny yn ein lleoliad pan fydd gennym systemau cwynion sefydledig eisoes a system newydd sy'n ddienw drwy ein Swyddogion Cyswllt.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod gan ein Swyddogion Cyswllt sydd newydd eu sefydlu rôl i adrodd, yn ddienw, ynghylch achosion i'r Pennaeth Adnoddau Dynol, sy'n monitro, yn cofnodi ac yn adrodd ynghylch patrymau ymddygiad. Cyflwynwyd y cynllun newydd hwn ym mis Mai a, gobeithio, bod iddo fuddion ychwanegol dros adrodd anhysbys, fel darparu cefnogaeth i achwynwyr a gwybodaeth am eu dewisiadau. Teimlwn fod ar y fenter hon angen amser i ymsefydlu, ac rydym eisiau sicrhau nad yw unrhyw gynnig ar gyfer adrodd anhysbys yn creu dryswch na dyblygu gwaith yn y broses.

Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod gennym eisoes systemau cwyno gwahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl sy'n gweithio yma, oherwydd eu statws etholedig neu'u statws cyflogaeth. O fewn y llwybrau cwynion hynny mae dewisiadau i'r defnyddiwr hefyd e.e. pe bai'n well ganddynt i blaid wleidyddol ymchwilio i achos, yn hytrach na'r Comisiynydd Safonau. Drwy gydol y broses o ddatblygu cynigion i wella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno gwybodaeth am ein prosesau cwynion, rydym wedi bod yn ymwybodol o wella hygyrchedd ac eglurder o ran ein prosesau, mewn ymateb i adroddiadau newyddion y llynedd, pan ddywedodd darpar achwynwyr nad oedd y prosesau'n eglur. Felly, bydd angen i'r Comisiwn ystyried yn ofalus, ac o bosibl ystyried mewnbwn gan ddefnyddwyr, ynghylch a fyddai cyflwyno ffordd arall o adrodd, yn ddienw, na ellir ymchwilio iddo'n ffurfiol oherwydd yr anhysbysrwydd hwnnw, o fudd gwirioneddol, neu yn creu dryswch ynghylch y gwahanol lwybrau sydd ar gael ar gyfer achwynydd.

Ar y sail honno, hoffem aros am ganlyniad gwaith y Comisiynydd Safonau ar brosesau cwynion pleidiau gwleidyddol; ystyried, fel yr argymhellir, ymarfer i asesu a ydym wedi gwella hygyrchedd yn ddigonol drwy brawf o'r systemau cwynion, a gofyn barn ar sut y gallai system adrodd ddienw ddod â manteision i'r prosesau a'r diwylliant cwynion.

Byddem yn hapus iawn i gadw mewn cysylltiad â'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am y cynnydd wrth i ni weithredu'r argymhellion.

Yn gywir,

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon